OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3294 (Cy.290)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn ailddeddfu gyda newidiadau Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/590 (Cy.66)). Mae'r prif newidiadau fel a ganlyn-

(a) darperir bod dod â chynhyrchion bwyd anifeiliaid a bwyd penodol i Gymru wedi ei wahardd a bod person sy'n mynd yn groes i'r gwaharddiad hwnnw yn euog o dramgwydd;

(b) darperir bod rhaid i swyddog awdurdodedig awdurdod gorfodi gyflwyno hysbysiad pan fydd yn bwriadu gosod llwyth o fwyd anifeiliaid neu fwyd yng nghadw yn swyddogol-

(i) yn achos amheuaeth neu ddiffyg cydymffurfiaeth neu oherwydd bod amheuaeth ynghylch beth yw'r llwyth neu i le y mae'r llwyth yn mynd, neu

(ii) oherwydd nad yw'r bwyd anifeiliaid neu'r bywd yn cydymffurfio â chyfraith bwyd;

(c) darperir bod person sy'n mynd yn groes neu'n methu â chydymffurfio â rhwymedigaethau penodol sy'n ymwneud â gwirio cynhyrchion y daethpwyd â hwy i Gymru yn euog o dramgwydd;

(ch) darperir y caniateir i awdurdodau cymwys godi am dreuliau yr eir iddynt pan fydd y treuliau yn codi o reolaethau swyddogol ychwanegol neu yn codi oddi wrth gymorth wedi ei gyd-drefnu a gwaith dilynol gan y Comisiwn Ewropeaidd; a

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2007 No. 3294 (W.290)

AGRICULTURE, WALES

FOOD, WALES

The Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2007

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

1. These Regulations revoke and re-enact with changes the Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/590 (W.66)). The principal changes are that -

(a) it is provided that the introduction into Wales of certain feed and food products is prohibited and that a person who contravenes such a prohibition is guilty of an offence;

(b) it is provided that an authorised officer of an enforcement authority must serve a notice when he or she proposes to place a consignment of feed or food under official detention-

(i) in case of suspicion of non-compliance or because there is doubt as to the identity or the destination of the consignment, or

(ii) because the feed or food does not comply with feed or food law;

(c) it is provided that a person who contravenes or fails to comply with certain obligations relating to the checking of products that are introduced into Wales is guilty of an offence;

(d) it is provided that expenses may be charged by competent authorities where they arise from additional official controls or arise in respect of co-ordinated assistance and follow-up by the European Commission; and

(d) mae'r diffiniadau o "cyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol" a "cyfraith bwyd berthnasol" yn Atodlenni 2 a 3 yn y drefn honno wedi'u hadolygu.

2. Mae'r Rheoliadau hyn, yn yr un modd ag O.S. 2006/590 (Cy.66), sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi yng Nghymru Reoliad (EC) 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau bod cydymffurfedd â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd a rheolau ynghylch iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid yn cael ei wirio (OJ Rhif L165, 30.4.2004, t.1), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1791/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L363, 20.12.2006, t.1), o ran "cyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol" a "cyfraith bwyd berthnasol", sy'n dermau a ddiffinnir yn Atodlenni 2 a 3 yn y drefn honno. Mae testun diwygiedig y Rheoliad EC/882/2004 hwn wedi'i nodi bellach mewn Corigendwm, OJ Rhif L191, 28.5.2004, t.1), y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.9).

3. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gosod gwaharddiadau ar gyflwyno i Gymru fwydydd anifeiliaid penodol a bwydydd penodol a hynny yng ngoleuni Erthygl 11 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd (OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 575/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3) ac fel y'i darllenir gydag Erthygl 10 o Reoliad (EC) Rhif 852/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar hylendid bwydydd (OJ Rhif L139, 30.4.2004, t.1; mae testun diwygiedig y Rheoliad hwnnw wedi'i nodi bellach mewn Corigendwm, OJ Rhif L226, 25.6.2004, t.3) y dylid ei ddarllen gyda Chorigendwm pellach (OJ Rhif L204, 4.8.2007, t.9).

4. Mae'r Rheoliadau hyn -

(a) yn darparu ar gyfer dynodi cyrff penodedig yn awdurdodau cymwys at ddibenion darpariaethau Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 (rheoliad 3);

(b) yn darparu ar gyfer cyfnewid a darparu gwybodaeth gan awdurdodau cymwys (rheoliad 4);

(c) yn galluogi awdurdod cymwys i'w gwneud yn ofynnol i gorff rheoleiddiol ddarparu gwybodaeth a sicrhau bod cofnodion ar gael a darparu bod person -

(i) sy'n methu â chydymffurfio â gofyniad i ddarparu gwybodaeth neu i sicrhau bod cofnodion ar gael, neu

(ii) ac yntau'n honni ei fod yn cydymffurfio â gofyniad o'r fath yn rhoi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol,

(e) the definitions of "relevant feed law" and "relevant food law" in Schedules 2 and 3 respectively are revised.

2. These Regulations which, like S.I. 2006/590 (W.66), apply in relation to Wales, provide for the execution and enforcement there of Regulation (EC) No. 882/2004 of the European Parliament and of the Council on official controls performed to ensure the verification of compliance with feed and food law, animal health and animal welfare rules (OJ No. L165, 30.4.2004, p.1), as last amended by Council Regulation (EC) No. 1791/2006 (OJ No. L363, 20.12.2006, p.1), in relation to "relevant feed law" and "relevant food law", which terms are defined in Schedules 2 and 3 respectively. The revised text of Regulation (EC) No. 882/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No. L191, 28.5.2004, p.1), which should be read with a further Corrigendum (OJ No. L204, 4.8.2007, p.29).

3. These Regulations also impose prohibitions on the introduction of certain feed and food into Wales in the light of Article 11 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety (OJ No. L31, 1.2.2002, p.1), as last amended by Commission Regulation (EC) No. 575/2006 (OJ No. L100, 8.4.2006, p.3) and as read with Article 10 of Regulation (EC) No. 852/2004 of the European Parliament and of the Council on the hygiene of foodstuffs (OJ No. L139, 30.4.2004, p.1; the revised text of that Regulation is now set out in a Corrigendum, OJ No. L226, 25.6.2004, p.3, which should be read with a further Corrigendum, OJ No. L204, 4.8.2007, p.26).

4. These Regulations -

(a) provide for the designation of specified bodies as competent authorities for the purposes of the provisions of Regulation (EC) No. 882/2004 (regulation 3);

(b) provide for the exchange and provision of information by competent authorities (regulation 4);

(c) enable a competent authority to require a control body to provide information and make records available and provide that a person who -

(i) fails to comply with a requirement to provide information or make records available, or

(ii) in purported compliance with such a requirement furnishes false or misleading information,

yn euog o dramgwydd (rheoliad 5);

(ch) yn galluogi y Gweinidogion Cymru i ddyroddi codau arfer a argymhellir i awdurdodau bwyd anifeiliaid ac awdurdodau bwyd (rheoliad 6);

(d) yn rhoi'r swyddogaeth o fonitro perfformiad awdurdodau gorfodi o ran gorfodi deddfwriaeth benodol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (rheoliad 7);

(dd) yn rhoi i'r Asiantaeth Safonau Bwyd y pwer, at ddibenion cyflawni'r swyddogaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (d) o'r paragraff hwn-

(i) i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu ac i gofnodion fod ar gael (rheoliad 8); a

(ii) i awdurdodi unigolion (a gaiff drwy hynny arfer pwerau penodol, gan gynnwys pwer mynediad) (rheoliad 9);

(e) yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn rheoliadau 7 i 9 (rheoliad 10);

(f) yn darparu bod person sydd -

(i) yn rhwystro person sy'n arfer pwerau i fynd i mewn i fangre, i gymryd samplau neu i arolygu a chopïo cofnodion,

(ii) yn methu â chydymffurfio â gofynion i ddarparu gwybodaeth neu sicrhau bod cofnodion ar gael neu ddarparu cyfleusterau, cofnodion, gwybodaeth neu gymorth arall, neu

(iii) yn darparu tystiolaeth anwir neu gamarweiniol, ac yntau'n honni ei fod yn cydymffurfio â'r cyfryw ofyniad,

yn euog o dramgwydd (rheoliad 11);

(ff) yn darparu hawl i apelio ynglyn â phenderfyniad yr awdurdod cymwys ynghylch cymeradwyo sefydliadau penodol a wneir o dan Erthygl 31 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 (rheoliadau 12 a 13);

(g) yn darparu y caiff swyddog awdurdodedig i awdurdod cymwys fynd â staff awdurdod cymwys Aelod-wladwriaeth arall gydag ef er mwyn cynnal ymchwiliad gweinyddol o dan Erthygl 36 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 (rheoliad 14);

(ng) yn darparu y caiff "swyddog gorfodi", a ddiffinnir yn rheoliad 15(2), pan fydd yn mynd i mewn i fangre er mwyn gweithredu a gorfodi rheolaethau swyddogol, fynd ag un o arbenigwyr y Comisiwn gydag ef i alluogi'r arbenigydd hwnnw i gyflawni swyddogaethau o dan Erthygl 45 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 (rheoliad 15);

is guilty of an offence (regulation 5);

(d) enable the Welsh Ministers to issue codes of recommended practice to feed authorities and food authorities (regulation 6);

(e) give the Food Standards Agency the function of monitoring the performance of enforcement authorities in enforcing certain legislation (regulation 7);

(f) give the Food Standards Agency the power, for the purpose of carrying out the function referred to in sub-paragraph (e) of this paragraph -

(i) to require information to be provided and records to be made available (regulation 8), and

(ii) to authorise individuals (who may thereby exercise certain powers, including a power of entry) (regulation 9);

(g) define certain terms used in regulations 7 to 9 (regulation 10);

(h) provide that a person who -

(i) obstructs a person exercising a power to enter premises, take samples or inspect and copy records,

(ii) fails to comply with a requirement to provide information, make records available or provide facilities, records, information or other assistance, or

(iii) in purported compliance with such a requirement furnishes false or misleading information,

is guilty of an offence (regulation 11);

(i) provide a right of appeal in respect of a decision of the competent authority concerning the approval of certain establishments taken under Article 31 of Regulation (EC) No. 882/2004 (regulations 12 and 13);

(j) provide that an authorised officer of a competent authority may take with him or her a member of staff of the competent authority of another member State for the purpose of conducting an administrative enquiry under Article 36 of Regulation (EC) No. 882/2004 (regulation 14);

(k) provide that when an "enforcing officer", defined in regulation 15(2), enters premises for the purpose of executing and enforcing official controls the officer may take with him or her a Commission expert to enable that expert to carry out functions under Article 45 of Regulation (EC) No. 882/2004 (regulation 15);

(h) yn darparu bod person sy'n mynd i mewn i fangre o dan y pwerau y cyfeiriwyd atynt yn is-baragraffau (g) neu (ng) ac sy'n datgelu unrhyw wybodaeth y mae wedi'i chael ar y fangre mewn perthynas ag unrhyw gyfrinach fasnachol yn euog o dramgwydd oni bai ei fod yn gwneud hynny wrth gyflawni ei ddyletswydd (rheoliad 16);

(i) yn pennu pa awdurdodau sy'n gyfrifol am weithredu a gorfodi rheoliadau 5(3), 9(8), 11, 16, 18(8) a 19 (rheoliad 17);

(j) yn darparu pwerau mynediad i swyddogion awdurdodedig yr awdurdodau y cyfeiriwyd atynt yn is-baragraff (i) (rheoliad 18);

(l) yn creu'r tramgwydd o rwystro swyddog sy'n gweithredu i roi rheoliad 14, 15 neu 18 ar waith(rheoliad 19);

(ll) yn darparu cosbau am dramgwyddau o dan Ran 2 y Rheoliadau hyn (rheoliad 20);

(m) yn darparu terfyn amser ar gyfer dwyn erlyniadau am dramgwyddau o dan reoliad 18(8) (rheoliad 21);

(n) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi a gweithredu Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn ac Erthyglau 15 i 24 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004, a ddiffinnir gyda'i gilydd yn rheoliad 2(1) fel "y Darpariaethau Mewnforio" (rheoliadau 23 a 24);

(o) yn darparu bod y Comisiynwyr dros Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cyflawni'r swyddogaethau a roddwyd i'r gwasanaethau tollau o dan Erthygl 24 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 (rheoliad 25);

(p) yn darparu dros ohirio gweithredu a gorfodi'r Darpariaethau Mewnforio nes bod y cynnyrch wedi cyrraedd ei gyrchfan (rheoliad 26);

(ph) yng ngoleuni Erthygl 11 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 fel y'i darllenir gydag Erthygl 10 o Reoliad (EC) Rhif 852/2004 (fel a ddisgrifir ym mharagraff 3 uchod) yn gwahardd cyflwyno i Gymru fwyd anifeiliaid penodol a bwyd penodol oni chaiff amodau penodedig eu bodloni (rheoliad 27);

(r) yn darparu ar gyfer gwirio cynhyrchion a gyflwynir i Gymru (rheoliad 28);

(rh) yn darparu bod gan awdurdod gorfodi bwer i wneud unrhyw beth y caiff awdurdod cymwys ei wneud o dan Erthyglau 18 i 21 a 24(3) o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 ac yn darparu mai'r awdurdod gorfodi yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Erthygl 22 o'r Rheoliad hwnnw (rheoliad 29);

(s) yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau gan swyddog awdurdodedig i awdurdod gorfodi pan fo'r swyddog hwnnw yn dymuno cymryd mesurau penodol neu arfer pwerau penodol o

(l) provide that a person who enters premises under the powers referred to in sub-paragraph (j) or (k) of this paragraph and discloses any information obtained on the premises with regard to any trade secret is guilty of an offence unless he or she does so in the performance of his or her duty (regulation 16);

(m) specify the authorities that are responsible for executing and enforcing regulations 5(3), 9(8), 11, 16, 18(8) and 19 (regulation 17);

(n) give powers of entry to authorised officers of the authorities referred to in sub-paragraph (m) of this paragraph (regulation 18);

(o) create the offence of obstructing an officer acting in the execution of regulation 14, 15 or 18 (regulation 19);

(p) provide penalties for offences under Part 2 of these Regulations (regulation 20);

(q) provide a time limit for bringing prosecutions for offences under regulation 18(8) (regulation 21);

(r) make provision for the execution and enforcement of Part 3 of these Regulations and Articles 15 to 24 of Regulation (EC) No. 882/2004, together defined in regulation 2(1) as "the Import Provisions" (regulations 23 and 24);

(s) provide that the Commissioners for Her Majesty's Revenue and Customs are to carry out the functions given to customs services under Article 24 of Regulation (EC) No. 882/2004 (regulation 25).

(t) make provision for the execution and enforcement of the Import Provisions to be deferred until a product reaches its destination (regulation 26);

(u) in the light of Article 11 of Regulation (EC) No. 178/2002 as read with Article 10 of Regulation (EC) No. 852/2004 (as described in paragraph 3 above) prohibit the introduction into Wales of certain feed and food unless specified conditions are met (regulation 27);

(v) provide for the checking of products that are introduced into Wales (regulation 28);

(w) provide that an enforcement authority, first, has the power to do anything that a competent authority may do under Articles 18 to 21 and 24(3) of Regulation (EC) No. 882/2004 and, second, is the competent authority for the purposes of Article 22 of that Regulation (regulation 29);

(x) provide for the service of notices by an authorised officer of an enforcement authority when he or she proposes to take certain measures or exercise certain powers under

dan Erthygl 19 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 (mewnforio bwyd anifeiliaid a bwyd o drydydd gwledydd) (rheoliad 30);

(t) yn darparu hawl i apelio mewn perthynas â chyflwyno hysbysiad o dan reoliad 30 (rheoliadau 31 a 32);

(th) yn darparu bod y Gweinidogion Cymru neu'r Asiantaeth, drwy ddatganiad ysgrifenedig, yn atal neu'n gosod amodau ar gyflwyno i Gymru unrhyw gynnyrch o drydedd wlad os yw naill ai'r Gweinidogion Cymru neu'r Asiantaeth yn cael ar ddeall neu os yw'n rhesymol iddo neu iddi amau bod unrhyw fwyd neu fwyd anifeiliaid sydd wedi ei gyflwyno neu a allai gael ei gyflwyno i Loegr o'r drydedd wlad honno'n debygol o fod yn risg difrifol i iechyd anifeiliaid neu i iechyd y cyhoedd (rheoliad 33);

(u) yn darparu bod costau a ddynir gan yr awdurdod gorfodi y mae'r gweithredydd busnes bwyd anifeiliaid neu gweithredydd busenss bwyd yn atebol iddynt o dan Erthygl 22 Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 yn daladwy gan y gweithredydd busnes bwyd anifeiliaid neu gweithredydd busnes bwys neu eu cyrychiolwyr (rheoliad 34);

(w) yn darparu ar gyfer caffael a dadansoddi samplau o fwyd at ddibenion gweithredu a gorfodi'r "Darpariaethau Mewnforio", a ddiffinnir yn rheoliad 22 (rheoliadau 35 a 36);

(y) yn darparu pwerau mynediad ar gyfer swyddogion awdurdodedig i awdurdod bwyd o ran gweithredu a gorfodi'r Darpariaethau Mewnforio (rheoliad 37);

(aa) yn creu tramgwydd o rwystro swyddog sy'n gweithredu i roi'r Darpariaethau Mewnforio ar waith (rheoliad 38);

(bb) yn creu tramgwyddau o ran mynd yn groes i reoliadau penodedig neu fethu â chydymffurfio â hwy a methu â chydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir o dan y Darpariaethau Mewnforio ac yn darparu cosbau am dramgwyddau o dan Ran 3 o'r Rheoliadau hyn (rheoliad 39);

(cc) yn darparu terfyn amser ar gyfer dwyn erlyniadau am dramgwyddau o dan Ran 3 o'r Rheoliadau hyn (rheoliad 40);

(chch) yn darparu bod costau a godir gan awdurdod cymwys yn unol ag Erthygl 28 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 yn daladwy gan y gweithredydd (Rheoliad 41);

(dd2) yn darparu bod costau a godir gan awdurdod cymwys yn unol ag Erthygl 40(4) o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 yn daladwy gan y busnes bwyd anifeiliaid neu'r busnes bwyd (Rheoliad 42);

Articles 18 and 19 of Regulation (EC) No. 882/2004 (imports of feed and food from third countries) (regulation 30);

(y) provide a right of appeal in respect of the service of notices under regulation 30 (regulations 31 and 32);

(z) enable the Welsh Ministers or the Agency by written declaration to suspend, or impose conditions on, the introduction into Wales of any product from a third country where they learn or reasonably suspect that any food or feed that has been or may be introduced into Wales from that third country is likely to constitute a serious risk to animal or public health (regulation 33);

(aa) provide that the costs incurred by the enforcement authority for which the feed or food business operator is liable under Article 22 of Regulation (EC) No. 882/2004 are payable by the feed or food business operator or their representatives (regulation 34);

(bb) provide for the procurement and analysis of samples of food for the purposes of the execution and enforcement of the Import Provisions (regulations 35 and 36);

(cc) provide powers of entry for authorised officers of food authorities in relation to the execution and enforcement of the Import Provisions (regulation 37);

(dd) create the offence of obstructing an officer acting in the execution of the Import Provisions (regulation 38);

(ee) create offences consisting of contravening or failing to comply with specified regulations and failing to comply with a notice served under the Import Provisions and provide penalties for offences under Part 3 of these Regulations (regulation 39);

(ff) provide a time limit for bringing prosecutions for certain offences under Part 3 of these Regulations (regulation 40);

(gg) provide that expenses charged by a competent authority pursuant to Article 28 of Regulation (EC) No. 882/2004 are payable by the operator (regulation 41);

(hh) provide that expenses charged by a competent authority pursuant to Article 40(4) of Regulation (EC) No. 882/2004 are payable by the feed or food business (regulation 42);

(dddd) yn darparu, pan fo tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn wedi'i gyflawni oherwydd gweithred neu ddiffyg gweithred rhyw berson arall, bod y person arall yn euog o'r tramgwydd (rheoliad 43);

(ff2) yn darparu ei bod yn amddiffyniad mewn achos cyfreithiol am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn i'r sawl a gyhuddir brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r tramgwydd (rheoliad 44);

(ffff) yn darparu, os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol wedi'i gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad swyddog i'r corff corfforaethol, neu berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath, neu os gellir priodoli'r tramgwydd hwnnw i unrhyw esgeulustod ar ran y swyddog neu'r person hwnnw, y bydd y swyddog neu'r person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn cael ei gyfrif yn euog o'r tramgwydd hwnnw ac y caniateir i achos cyfreithiol gael ei ddwyn yn ei erbyn ac iddo gael ei gosbi yn unol â hynny (rheoliad 45);

(gg) yn darparu, os profir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan bartneriaeth Albanaidd wedi'i gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu os gellir priodoli'r tramgwydd hwnnw i unrhyw esgeulustod ar ran y partner hwnnw, y bydd y partner hwnnw, yn ogystal â'r bartneriaeth, yn cael ei gyfrif yn euog o'r tramgwydd hwnnw ac y caniateir i achos cyfreithiol gael ei ddwyn yn ei erbyn ac iddo gael ei gosbi yn unol â hynny (rheoliad 46);

(ngng) yn darparu ar gyfer amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll (rheoliad 47);

(hh) yn darparu ar gyfer cyflwyno dogfennau (rheoliad 48); ac

(ii) yn dirymu Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2006 (O.S. 2006/590 (Cy.66)) (rheoliad 49).

5. Mae asesiad effaith rheoleiddiol llawn o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei gael ar gostau busnes a'r sector gwirfoddol ar gael gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW.

(ii) provide that where the commission of an offence under these Regulations is due to the act or default of some other person that other person is guilty of the offence (regulation 43);

(jj) provide that in proceedings for an offence under these Regulations it is a defence for the accused to prove that he or she took all reasonable precautions and exercised all due diligence to avoid the commission of the offence (regulation 44);

(kk) provide that where an offence under these Regulations which has been committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, an officer of the body corporate or a person purporting to act as such he or she as well as the body corporate is deemed to be guilty of that offence and may be proceeded against and punished accordingly (regulation 45);

(ll) provide that where an offence under these Regulations which has been committed by a Scottish partnership is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, a partner he or she as well as the partnership is deemed to be guilty of that offence and may be proceeded against and punished accordingly (regulation 46);

(mm) provide for the protection of officers acting in good faith (regulation 47);

(nn) provide for the service of documents (regulation 48); and

(oo) revoke the Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2005/590 (W.66)) (regulation 49).

5. A full regulatory impact assessment of the effect that this instrument will have on the costs of business and the voluntary sector is available from the Food Standards Agency, 11th Floor, Southgate House, Wood Street, Cardiff, CF10 1EW.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3294 (Cy.290)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007

Gwnaed	*19 Tachwedd 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*21 Tachwedd 2007*
Yn dod i rym	*14 Rhagfyr 2007*

TREFNIANT Y RHEOLIADAU

RHAN 1

MATERION RHAGARWEINIOL

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli

RHAN 2

Y PRIF DDARPARIAETHAU

3. Awdurdodau cymwys
4. Cyfnewid a darparu gwybodaeth
5. Sicrhau gwybodaeth
6. Pwer i ddyroddi codau arferion a argymhellir
7. Monitro camau gorfodi
8. Pwer i ofyn am wybodaeth sy'n ymwneud â chamau gorfodi
9. Pwerau mynediad ar gyfer personau sy'n monitro camau gorfodi
10. Ystyr "awdurdod gorfodi" ac ymadroddion cysylltiedig
11. Tramgwyddau sy'n ymwneud â rheoliadau 8 a 9

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2007 No. 3294 (W.290)

AGRICULTURE, WALES

FOOD, WALES

The Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2007

Made	*19 November 2007*
Laid before the National Assembly for Wales	*21 November 2007*
Coming into force	*14 December 2007*

CONTENTS

PART 1

PRELIMINARY

1. Title, commencement and application
2. Interpretation

PART 2

MAIN PROVISIONS

3. Competent authorities
4. Exchanging and providing information
5. Obtaining information
6. Power to issue codes of recommended practice
7. Monitoring of enforcement action
8. Power to request information relating to enforcement action
9. Power of entry for persons monitoring enforcement action
10. Meaning of "enforcement authority" and related expressions
11. Offences relating to regulations 8 and 9

12. Yr hawl i apelio
13. Apelau i Lys y Goron yn erbyn gwrthod apêl o dan reoliad 12(1)
14. Staff awdurdod cymwys Aelod-wladwriaeth arall
15. Arbenigwyr y Comisiwn
16. Gwahardd datgelu cyfrinachau masnachol
17. Gweithredu a gorfodi
18. Pwerau mynediad
19. Rhwystro, etc. swyddogion
20. Cosbau
21. Y terfyn amser ar gyfer erlyniadau

RHAN 3

RHEOLAETHAU SWYDDOGOL AR FWYD ANIFEILIAID A BWYD O DRYDYDD GWLEDYDD NAD YDYNT YN DOD O ANIFEILIAID

22. Dehongli'r Rhan hon o'r Rheoliadau
23. Cyfrifoldebau gorfodi bwyd anifeiliaid
24. Cyfrifoldebau gorfodi bwyd
25. Swyddogaethau'r Comisiynwyr
26. Gohirio, gweithredu a gorfodi
27. Gwahardd cyflwyno bwyd anifeiliaid penodol a bwyd penodol
28. Gwirio cynhyrchion
29. Cadw, distrywio, trin yn arbennig, ailanfon a mesurau a chostau priodol eraill
30. Hysbysiadau yn unol ag Erthyglau 18 a 19 o Reoliad 882/2004 (mewnforio bwyd anifeiliaid a bwyd o drydydd gwledydd)
31. Yr hawl i apelio o ran hysbysiadau a gyflwynir o dan reoliad 30
32. Apelau i Lys y Goron yn erbyn gwrthod apêl o dan reoliad 31
33. Risg difrifol i iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd
34. Costau
35. Caffael samplau mewn perthynas â bwyd gan swyddogion awdurdodedig
36. Dadansoddi etc. samplau
37. Pwerau mynediad swyddogion awdurdodedig i awdurdod gorfodi bwyd
38. Rhwystro etc. swyddogion (mewnforion)
39. Tramgwyddau a chosbau
40. Y terfyn amser ar gyfer erlyniadau (mewnforion)

12. Right of appeal
13. Appeal to Crown Court against dismissal of appeal under regulation 12(1)
14. Staff of competent authority of another member State
15. Commission experts
16. Prohibition on disclosure of trade secrets
17. Execution and enforcement
18. Powers of entry
19. Obstruction etc. of officers
20. Penalties
21. Time limit for prosecutions

PART 3

OFFICIAL CONTROLS ON FEED AND FOOD OF NON-ANIMAL ORIGIN FROM THIRD COUNTRIES

22. Interpretation of this Part of these Regulations
23. Feed enforcement responsibilities
24. Food enforcement responsibilities
25. Functions of the Commissioners
26. Deferred execution and enforcement
27. Prohibition on introduction of certain feed and food
28. Checks on products
29. Detention, destruction, special treatment, re-dispatch and other appropriate measures and costs
30. Notices pursuant to Articles 18 and 19 of Regulation 882/2004 (imports of feed and food from third countries)
31. Right of appeal in respect of notices served under regulation 30
32. Appeal to Crown Court against dismissal of appeal under regulation 31
33. Serious risk to animal or public health
34. Costs
35. Procurement by authorised officers of samples with regard to food
36. Analysis etc. of samples
37. Powers of entry of authorised officers of a food authority
38. Obstruction etc. of officers (imports)
39. Offences and penalties
40. Time limit for prosecutions (imports)

RHAN 4

ADENILL TREULIAU

41. Treuliau sy'n codi oddi wrth reolaethau swyddogol
42. Treuliau sy'n codi o ran cymorth wedi ei gyd-drefnu a gwaith dilynol gan y Comisiwn

PART 4

RECOVERY OF EXPENSES

41. Expenses arising from additional official controls
42. Expenses arising in respect of co-ordinated assistance and follow-up by the Commission

RHAN 5

GORFODI A DARPARIAETHAU ATODOL

43. Tramgwyddau oherwydd bai person arall
44. Amddiffyniad o ddiwydrwydd dyladwy
45. Tramgwyddau gan gyrff corfforaethol
46. Tramgwyddau gan bartneriaethau Albanaidd
47. Amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll
48. Cyflwyno dogfennau
49. Dirymu

ATODLEN 1 - DIFFINIADAU O DDEDDFWRIAETH GYMUNEDOL

ATODLEN 2 - DIFFINIAD O GYFRAITH BWYD ANIFEILIAID BERTHNASOL

ATODLEN 3 - DIFFINIAD O GYFRAITH BWYD BERTHNASOL

ATODLEN 4 - AWDURDODAU CYMWYS AT DDIBENION DARPARIAETHAU PENODOL YN RHEOLIAD 882/2004 I'R GRADDAU Y MAENT YN GYMWYS O RAN CYFRAITH BWYD ANIFEILIAID BERTHNASOL

ATODLEN 5 - AWDURDODAU CYMWYS AT DDIBENION DARPARIAETHAU PENODOL YN

PART 5

ENFORCEMENT AND SUPPLEMENTARY PROVISIONS

43. Offences due to fault of another person
44. Defence of due diligence
45. Offences by bodies corporate
46. Offences by Scottish partnerships
47. Protection of officers acting in good faith
48. Service of documents
49. Revocation

SCHEDULE 1 - DEFINITIONS OF COMMUNITY LEGISLATION

SCHEDULE 2 - DEFINITION OF RELEVANT FEED LAW

SCHEDULE 3 - DEFINITION OF RELEVANT FOOD LAW

SCHEDULE 4 - COMPETENT AUTHORITIES FOR THE PURPOSES OF CERTAIN PROVISIONS OF REGULATION 882/2004 IN SO FAR AS THEY APPLY IN RELATION TO RELEVANT FEED LAW

SCHEDULE 5 - COMPETENT AUTHORITIES FOR THE PURPOSES OF CERTAIN

RHEOLIAD 882/2004 I'R GRADDAU Y MAENT YN GYMWYS O RAN CYFRAITH BWYD BERTHNASOL

PROVISIONS OF REGULATION 882/2004 IN SO FAR AS THEY APPLY IN RELATION TO RELEVANT FOOD LAW

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972(**1**).

Dynodwyd Gweinidogion Cymru at ddibenion adran 2(2) o Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid sy'n cael ei gynhyrchu neu ei fwydo i anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd(**2**) a pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(**3**) a mesurau ym maes milfeddygaeth i ddiogelu iechyd y cyhoedd(**4**).

The Welsh Ministers, are designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972 in relation to measures relating to food (including drink) including the primary production of food and measures relating to feed produced for or fed to food-producing animals(**2**), the common agricultural policy of the European Community(**3**) and measures in the veterinary field for the protection of public health(**4**).

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**5**),bu ymgynghori agored a thryloyw wrth lunio'r Rheoliadau a ganlyn:

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**5**) there has been open and transparent public consultation during the preparation of the following Regulations.

(**1**) 1972 p.68

(**2**) O.S. 2005/1971. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y dynodiad hwn a'r ddau ddynodiad arall y cyfeiriwyd atynt i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 2005/2766.

(**4**) O.S. 2003/1246

(**5**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. fel y'i diwygiwyd ddiwethaf drwy wneud yr offeryn hwn gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran rhifau ac enwau Panelau Gwyddonol Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

(**1**) 1972 c.68

(**2**) S.I. 2005/1971. Functions of the National Assembly for Wales under this designation and the two other designations referred to were transferred to Welsh Ministers by section 162 of and paragraphs 28 and 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

(**3**) S.I. 2005/2766.

(**4**) S.I. 2003/1246.

(**5**) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1, as last amended as at the making of this instrument by Commission Regulation (EC) No. 575/2006 amending Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council as regards the number and names of the permanent Scientific Panels of the European Food Safety Authority (OJ No. L100, 8.4.2006, p.3).

RHAN 1

MATERION RHAGARWEINIOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2007, deuant i rym ar 14 Rhagfyr 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "yr Asiantaeth" ("*the Agency*") yw'r Asiantaeth Safonau Bwyd;

mae i "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yr ystyr sydd iddo yn rhinwedd adran 5(1A) o'r Ddeddf;

ystyr "awdurdod bwyd anifeiliaid" ("*feed authority*") yw'r awdurdod y mae'n ofynnol o dan adran 67(1A) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970(**1**) iddo orfodi'r Ddeddf honno o fewn ei ardal neu ddosbarth yn ôl y digwydd;

ystyr "awdurdod cymwys" ("*competent authority*") yw awdurdod sydd, yn rhinwedd rheoliad 3, wedi'i ddynodi at ddibenion unrhyw un o ddarpariaethau Rheoliad 882/2004;

ystyr "awdurdod gorfodi perthnasol" ("*relevant enforcement authority*") yw corff sydd, yn rhinwedd rheoliad 17, yn cael ei wneud yn gyfrifol am weithredu a gorfodi unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn;

mae i "Cyfarwyddeb 2004/41" ("*Directive 2004/41*"), "Rheoliad 178/2002" ("*Regulation 178/2002*"), "Rheoliad 852/2004" ("*Regulation 852/2004*"), "Rheoliad 853/2004" ("*Regulation 853/2004*") "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2005*"), "Rheoliad 1688/2005" ("*Regulation 1688/2005*"), "Rheoliad 2073/2005" ("*Regulation 2073/2005*"), "Rheoliad 2074/2005" ("*Regulation 2074/2005*"), a "Rheoliad 2076/2005" ("*Regulation 2076/2005*") yr ystyr a roddir iddynt yn ôl eu trefn yn Atodlen 1;

mae i "cyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol" ("*relevant feed law*") yr ystyr a roddir i hynny yn Atodlen 2;

mae i "cyfraith bwyd berthnasol" ("*relevant food law*") yr ystyr a roddir i hynny yn Atodlen 3;

mae i "cynhyrchu sylfaenol" yr ystyr sydd i "*primary production*" yn Rheoliad 852/2004;

(**1**) 1970 p. 40.

PART 1

PRELIMINARY

Title, commencement and application

1. The title of these Regulations is the Official Feed and Food Controls (Wales) Regulations 2007, they come into force on 14 December 2007 and apply in relation to Wales.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations -

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Food Safety Act 1990(**1**);

"the Agency" ("*yr Asiantaeth*") means the Food Standards Agency;

"authorised officer" ("*swyddog awdurdodedig*")-

(a) in relation to a competent authority, means any person (whether or not an officer of the authority) who is authorised by the authority in writing for the purposes of regulation 14; and

(b) in relation to a relevant enforcement authority, means any person (whether or not an officer of the authority) who is authorised by the authority in writing, either generally or specially, to act in matters arising under Part 2 of these Regulations in relation to its enforcement responsibilities under regulation 17;

"competent authority" ("*awdurdod cymwys*") means an authority which, by virtue of regulation 3, is designated for the purposes of any of the provisions of Regulation 882/2004;

"Directive 2004/41" ("*Cyfarwyddeb 2004/41*"), "Regulation 178/2002" ("*Rheoliad 178/2002*"), "Regulation 852/2004" ("*Rheoliad 852/2004*"), "Regulation 853/2004" ("*Rheoliad 853/2004*"), "Regulation 882/2004" ("*Rheoliad 882/2004*"), "Regulation 1688/2005" ("*Rheoliad 1688/2005*"), "Regulation 2073/2005" ("*Rheoliad 2073/2005*"), "Regulation 2074/2005" ("*Rheoliad 2074/2005*") and "Regulation 2076/2005" ("*Rheoliad 2076/2005*") have the meanings respectively given to them in Schedule 1;

"feed authority" ("*awdurdod bwyd anifeiliaid*") means the authority required by section 67(1) of the Agriculture Act 1970(**2**) to enforce that Act within its area or district as the case may be;

"food authority" ("*awdurdod bwyd*") has the meaning it bears by virtue of section 5(1A) of the Act;

(**1**) 1990 c.16.

(**2**) 1970 c. 40.

ystyr "y Darpariaethau Mewnforio" ("*the Import Provisions*") yw Rhan 3 o'r Rheoliadau ac Erthyglau 15 i 24 o Reoliad 882/2004;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw sefydliad, unrhyw le, cerbyd, stondin neu adeiladwaith symudol ac unrhyw long neu awyren;

ystyr "y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol" ("*the Official Control Regulations*") yw'r Rheoliadau hyn a Rheoliad 882/2004; ac

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") -

(a) o ran awdurdod cymwys, yw unrhyw berson (boed yn swyddog i'r awdurdod neu beidio) sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod at ddibenion rheoliad 14; a

(b) o ran awdurdod gorfodi perthnasol, yw unrhyw berson (boed yn swyddog i'r awdurdod neu beidio) sydd wedi'i awdurdodi'n ysgrifenedig gan yr awdurdod, naill ai'n gyffredinol neu'n arbennig, i weithredu mewn materion sy'n codi o dan Ran 2 o'r Rheoliadau hyn mewn perthynas â gweithredu a gorfodi rheoliad 17 gan yr awdurdod hwnnw.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn, ac eithrio un a ddiffinnir ym mharagraff (1), ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliadau hyn ac yn y Ddeddf yr ystyr a roddir i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol hwnnw yn y Ddeddf.

(3) Onid yw'n ymddangos bod bwriad i'r gwrthwyneb, mae i unrhyw ymadrodd a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir yr ymadrodd Saesneg cyfatebol yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad 178/2002 neu Reoliad 882/2004 yr ystyr a roddir i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol hwnnw yn Rheoliad 178/2002 neu Reoliad 882/2004 yn ôl y digwydd.

(4) Pan fo unrhyw swyddogaethau o dan y Ddeddf yn cael eu priodoli-

(a) drwy orchymyn o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**) i awdurdod iechyd porthladd; neu

(b) drwy orchymyn o dan adran 6 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936(**2**) i gyd-fwrdd ar gyfer dosbarth unedig,

"the Import Provisions" ("*y Darpariaethau Mewnforio*") means Part 3 of these Regulations and Articles 15 to 24 of Regulation 882/2004;

"the Official Control Regulations" ("*y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol*") means these Regulations and Regulation 882/2004;

"premises" ("*mangre*") includes any establishment, any place, vehicle, stall or moveable structure and any ship or aircraft;

"primary production" ("*cynhyrchu sylfaenol*") has the meaning it bears in Regulation 852/2004;

"relevant enforcement authority" ("*awdurdod gorfodi perthnasol*") means a body which, by virtue of regulation 17, is made responsible for executing and enforcing any provision of Part 2 of these Regulations;

"relevant feed law" ("*cyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol*") has the meaning given to it in Schedule 2; and

"relevant food law" ("*cyfraith bwyd perthnasol*") has the meaning given to it in Schedule 3.

(2) Subject to paragraph (3), any expression other than one defined in paragraph (1) that is used both in these Regulations and in the Act has the meaning it bears in the Act.

(3) Unless the contrary intention appears, any expression used both in these Regulations and in Regulation 178/2002 or Regulation 882/2004 has the meaning it bears in Regulation 178/2002 or Regulation 882/2004, as the case may be.

(4) Where any functions under the Act are assigned-

(a) by an order under section 2 or 7 of the Public Health (Control of Disease) Act 1984(**1**), to a port health authority; or

(b) by an order under section 6 of the Public Health Act 1936(**2**), to a joint board for a united district,

(**1**) 1984 p.22; amnewidiwyd adran 7(3)(d) gan baragraff 27 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (1990 p.16).

(**2**) 1936 p.49; mae adran 6 i'w darllen ynghyd â pharagraff 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990.

(**1**) 1984 c.22; section 7(3)(d) was substituted by paragraph 27 of Schedule 3 to the Food Safety Act 1990 (1990 c.16).

(**2**) 1936 c.49; section 6 is to be read with paragraph 1 of Schedule 3 to the Food Safety Act 1990.

rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at awdurdod bwyd, i'r graddau y mae'r cyfeiriad hwnnw yn ymwneud â'r swyddogaethau hynny, fel cyfeiriad at yr awdurdod y maent wedi'u priodoli iddo.

any reference in these Regulations to a food authority is construed, so far as relating to those functions, as a reference to the authority to whom they are so assigned.

RHAN 2

Y PRIF DDARPARIAETHAU

Awdurdodau cymwys

3.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (5), dynodir unrhyw gorff a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 4 yn awdurdod cymwys at ddibenion darpariaethau Rheoliad 882/2004 a nodir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n gymwys mewn perthynas â chyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol.

(2) Pan ddynodir yr awdurdod bwyd anifeiliaid yn awdurdod cymwys yn unol â pharagraff (1), dim ond ei ardal neu ei ddosbarth yn ôl y digwydd, y mae'r dynodiad yn rhychwantu.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) i (6), mae unrhyw gorff a bennir yng ngholofn 1 o Atodlen 5 wedi'i ddynodi'n awdurdod cymwys at ddibenion y darpariaethau yn Rheoliad 882/2004 a nodir yn y cofnod cyfatebol yng ngholofn 2 o'r Atodlen honno i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny yn gymwys o ran cyfraith bwyd berthnasol.

(4) Pan ddynodir yr awdurdod bwyd anifeiliaid yn awdurdod cymwys yn unol â pharagraff (3), dim ond ei ardal, y mae'r dynodiad yn rhychwantu.

(5) Pan ddynodir yr Asiantaeth yn awdurdod cymwys yn unol â pharagraff (1) neu (3) at ddibenion Erthygl 31(1) o Reoliad 882/2004, nid yw'r dynodiad ond yn rhychwantu cynhyrchu sylfaenol a'r gweithrediadau cysylltiedig y mae'r Asiantaeth yn gweithredu ac yn gorfodi mewn cysylltiad â hwy Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(**1**) yn rhinwedd rheoliad 5(1)(a) o'r Rheoliadau hynny.

(6) Pan ddynodir yr Asiantaeth yn awdurdod cymwys yn unol â pharagraff (3) at ddibenion Erthygl 31(2) o Reoliad 882/2004, nid yw'r dynodiad ond yn rhychwantu, o ran Erthygl 31(2)(a) i (e), y sefydliadau a'r gweithgareddau hynny y mae'r Asiantaeth yn gweithredu ac yn gorfodi mewn cysylltiad â hwy Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2005 yn rhinwedd rheoliad 5(2) o'r Rheoliadau hynny.

PART 2

MAIN PROVISIONS

Competent authorities

3.-(1) Subject to paragraphs (2) and (5), any body specified in Column 1 of Schedule 4 is designated as a competent authority for the purposes of the provisions of Regulation 882/2004 indicated in the corresponding entry in Column 2 of that Schedule in so far as those provisions apply in relation to relevant feed law.

(2) Where the feed authority is designated as a competent authority pursuant to paragraph (1) the designation extends to its area or district only, as the case may be.

(3) Subject to paragraphs (4) to (6), any body specified in Column 1 of Schedule 5 is designated as a competent authority for the purposes of the provisions of Regulation 882/2004 indicated in the corresponding entry in Column 2 of that Schedule in so far as those provisions apply in relation to relevant food law.

(4) Where the food authority is designated as a competent authority pursuant to paragraph (3) the designation extends to its area only.

(5) Where the Agency is designated as a competent authority pursuant to paragraph (1) or (3) for the purposes of Article 31(1) of Regulation 882/2004, the designation extends only to the operations in respect of which the Agency executes and enforces the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006(**1**) by virtue of regulation 5(1)(a) of those Regulations.

(6) Where the Agency is designated as a competent authority pursuant to paragraph (3) for the purposes of Article 31(2) of Regulation 882/2004, the designation extends, as regards Article 31(2)(a) to (e), only to those operations in respect of which the Agency executes and enforces the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006 by virtue of regulation 5(2) of those Regulations.

(**1**) O.S. 2006/31 (Cy. 5), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/1534 (Cy. 151) ac O.S. 2007/373 (Cy.33).

(**1**) S.I. 2006/31 (W.5), as amended by S.I. 2006/1534(W.151) and S.I.2007/373 (W.33)

Cyfnewid a darparu gwybodaeth

4.-(1) At ddibenion galluogi awdurdodau cymwys, awdurdodau RhSFAB (Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd) eraill ac Aelod-wladwriaethau i gyflawni'r rhwymedigaethau a roddir arnynt gan Reoliad 882/2004, caiff awdurdodau cymwys gyfnewid ymhlith ei gilydd neu ddarparu i awdurdodau RhSFAB eraill unrhyw wybodaeth y maent yn ei chael wrth weithredu neu orfodi cyfraith bwyd anifeiliaid berthnasol neu gyfraith bwyd berthnasol.

